



Mae'r canllawiau statudol yn datgan:

“Mae'n rhaid i gyrrff partneriaeth gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau a chamau gweithredu eraill a nodwyd yn y cynlluniau ardal ar y cyd.

Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn y cynllun ardal ar y cyd yn cael eu gwerthuso o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol llywodraeth leol. Dylid cynnwys adroddiad o'r adolygiad hwn fel Pennod yn adroddiad blynyddol y Bwrdd.

Os cyhoeddir atodiad i'r adroddiad cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol a'r BIL adolygu'r cynllun ardal ar y cyd diweddaraf ac ystyried pa un a ddylid ei ddiwygio ac, os felly, paratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd diwygiedig cyn gynted ag yw'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r atodiad.”

Monitro

Bydd angen i chi egluro trefniadau monitro ar gyfer y blaenoriaethau a nodwyd gennych a'u disgrifio yn adran 2.11 y templed, gan wneud hynny ar gyfer pob thema graidd. Bydd disgwyl i chi fonitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu a restrir ar gyfer eich blaenoriaethau. Bydd angen i'r rhain gael eu cytuno gan y partneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Wrth ddatblygu canlyniadau, bydd angen i chi edrych ar yr hyn sy'n bwysig i bobl yn ôl eich asesiad o'r boblogaeth.

Yn unol ag egwyddorion y Ddeddf, dylai'r Cynlluniau Ardal ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth. Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau'n ffordd effeithiol o bennu mesurau perfformiad ar lefel ranbarthol.



Ffynhonnell: Results Based Accountability Guide (Clear Impact) <https://clearimpact.com/results-based-accountability/example-performance-measures-can-use-program-service/>

Nodyn: Nid yw'r tabl ar gael yn Gymraeg

At ddibenion y cynllun hwn, y nod i chi yw mesur canlyniadau yn hytrach na chreu set newydd o ddangosyddion. Caiff y cyfraniad at ddangosyddion cenedlaethol ei drafod isod yn yr adran Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Bydd angen i chi gytuno, fel Bwrdd Partneriaeth, pa fesurau y byddwch yn eu defnyddio i fonitro sut bydd eich camau gweithredu yn cyflawni'r canlyniad a nodir yn eich blaenoriaethau. Y canlyniadau y byddwch yn cytuno arnynt fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn erbyn y blaenoriaethau, fydd sail eich gwerthusiad.

Cyfrannu at ddangosyddion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Mae'r Canllawiau Statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi greu cysylltiad rhwng y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a'r cyfraniad y bydd eich cynllun yn ei wneud at gyflawni'r canlyniadau hynny. Gallwch ddewis gwneud hyn drwy nodi pa rai o'r canlyniadau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'ch camau gweithredu.

Gan fod rhywfaint o ddata'n cael ei adrodd yn genedlaethol, gallech ddewis defnyddio'ch data lleol sydd wedi'i ddilysu a'i gyfuno ar lefel ranbarthol i ddangos sut mae'ch blaenoriaethau'n cyfrannu at y canlyniadau cenedlaethol. Cofiwch mai dangosydd gweithgarwch yn y boblogaeth ehangach yw hwn.

Gwerthuso ac adolygu

Bydd disgwyl i chi adrodd ar gynnydd a'i ddefnyddio i werthuso effaith. Diben y gwerthusiad yw gweld sut rydych chi fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt ac yn gweithredu'r cynlluniau. Bydd hyn yn cynnwys y blaenoriaethau penodol ar gyfer integreiddio hefyd a nodir ym mharagraff 27 o'r canllawiau statudol. Nid oes gofyn i chi, fel Bwrdd, gynnal gwerthusiad ffurfiol, llawn o'r holl wasanaethau a restrir yn eich cynllun.

Dylech egluro yn eich cynlluniau at ba ddibenion y bydd y wybodaeth rydych yn ei chasglu yn cael ei defnyddio ac yn ble, yn cynnwys drwy'r gofynion statudol canlynol

- ◆ Adolygiad o'ch asesiadau o'r boblogaeth (un ym mhob cylch asesu)
- ◆ Adroddiad gwerthuso'r Cynlluniau Ardal (un ym mhob cylch adrodd)
- ◆ Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'n bosibl y bydd adroddiadau ychwanegol drwy fecanweithiau eraill. Bydd angen i chi ystyried sut mae'r monitro yn erbyn camau gweithredu yn cyd-fynd â'ch canlyniadau cyffredinol, at ddibenion gwerthuso.

Monitro gweithgarwch arall

Ni fydd angen set newydd o drefniadau monitro ar gyfer unrhyw beth a fydd yn cael ei gyflwyno drwy fecanweithiau cynllunio eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch am greu gofyniad bod adroddiadau diweddar o gynlluniau cysylltiedig eraill yn cael eu hanfon i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Fel arall, hwyrach y byddwch am gynnwys dolen i'r cynllun perthnasol i gyfeirio darllenwyr i'w trefniadau monitro a gwerthuso.

Os oes dolenni uniongyrchol i gynlluniau neu fframweithiau eraill, mae'n bosibl y byddwch am ystyried cyfleoedd i alinio'ch canlyniadau lle mae yna nodweddion cyffredin, er enghraifft, drwy'r Cynlluniau Llesiant Lleol.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ *A ydw i wedi nodi'r canlyniadau y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am eu cyflawni?*
- ◆ *A ydym wedi ystyried y trefniadau monitro ar gyfer camau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau rhanbarthol?*
- ◆ *Beth yw'r cysylltiadau â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol?*
- ◆ *A ydym yn glir ynghylch yr hyn y byddwn yn ei werthuso?*
- ◆ *A ydym wedi egluro'n glir sut y byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun?*

Darllen Pellach

- Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau

<http://raguide.org/>

<https://www.slideshare.net/walescva/the-rough-guide-to-results-based-accountability>

<https://www.facebook.com/groups/RBAOBA/>

- Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

<http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy>

- Cysoni'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a fframweithiau canlyniadau lechyd y Cyhoedd a'r GIG

<http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/160329summarycy.pdf>



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government